

Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru

Y Gronfa Sefydlogi - Cwestiynau Cyffredin

Canllaw i gyrff am y Gronfa Sefydlogi a sut i wneud cais



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **Cyngor Celfyddydau Cymru: 'COVID-19: Cefnogaeth i Gyrff drwy'r Gronfa Sefydlogi, Cwestiynau Cyffredin'**.

Ebrill 2020



Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch chi angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:



E-bost: grantiau@celf.cymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.


Contents

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Y Gronfa Sefydlogi	6
Beth ydy'r gronfa a phwy sydd yn gallu ei chael?.....	6
Am faint rydw i'n gallu gwneud cais?.....	6
Pryd rydw i'n gallu gwneud cais?.....	7
Pwy sydd yn gallu gwneud cais o'n Portffolio Celfyddydol Cymru ni....	8
Pa gyrff o'n Portffolio Celfyddydol Cymru ni sydd yn gallu gwneud cais?.....	8
Pa gyrff o'n Portffolio Celfyddydol Cymru ni sydd ddim yn gallu gwneud cais?.....	9
Pam nad ydy pob corff yn ein Portffolio Celfyddydol ni yn gallu gwneud cais?.....	10
Pa gyrff eraill sydd yn gallu gwneud cais?.....	11
Pa gyrff sydd ddim yn aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru sydd yn gallu gwneud cais?.....	11
Sut dylai gwahanol fathau o gyrff gael eu sefydlu?.....	13
Gwneud cais.....	15
Ar gyfer beth mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio?.....	15
Ar beth dydych chi ddim yn gallu defnyddio'r arian?.....	16
Diffiniadau – beth mae termau a geiriau yn ei feddwl.....	17
Beth ydy Portffolio Celfyddydol Cymru?.....	17
Beth mae gwaith wedi'i gyllido'n gyhoeddus yn ei feddwl?.....	17
Ar gyfer pa fath o gostau mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio?.....	18

Sut byddwn ni'n gwneud ein penderfyniad ni.....	19
Beth sydd fwyaf pwysig i'r Cyngor Celfyddydau?.....	19
Oes yna rhywbeth arbennig rydyn ni eisiau ei gefnogi gyda'r arian yma?.....	20
Ar gyfer pa fath o gostau mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio?.....	21
Pryd bydda i'n cael fy mhenderfyniad i?.....	22
Pryd bydda i'n cael yr arian?.....	22
Fydd yna fwy o gyfleoedd i gael arian o'r Gronfa Sefydlogi?.....	22
Ydw i'n gallu gwneud cais nawr am waith fydd yn digwydd y flwyddyn nesaf?.....	22
Faint o gyrff fydd yn cael arian o'r Gronfa Sefydlogi?.....	24
Ydych chi'n mynd i brintio enwau'r bobl sydd yn cael arian?.....	24
Arian.....	25
Os ydw i'n gallu cael arian ar gyfer fy mhrosiect, fydda i'n fwy tebygol o gael arian o'r Gronfa Sefydlogi?.....	25
Sut bydd cael arian o'r Gronfa Sefydlogi yn gwneud gwahaniaeth i unrhyw gefnogaeth arall rydw i'n ei gael?.....	26
Pa brawf rydych chi ei hangen i ddangos ein bod ni wedi colli arian?.....	26
Ydw i angen cyllid cyfatebol?.....	27
Oes angen imi roi cynllun i chi am sut rydw i'n mynd i wario'r arian?.....	27
Sut rydw i'n llenwi'r ffurflen sydd yn dweud sut bydd yr arian yn cael ei wario?.....	28
Sut dylwn i lenwi'r adran gwariant o'r templed cyllideb?.....	29
Beth am TAW?.....	30

Sut dylwn i llenwi'r adran incwm?.....	30
Sut rydw i'n llenwi'r adran crynodeb?.....	32
Ydy'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu dyled sydd gennym ni ers amser hir?.....	32
Mae gen i anghenion ychwanegol, ydw i'n gallu cael help gyda'r cais?.....	33
Ydy'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu costau mynediad?.....	33
Beth ydy costau mynediad?	34
Pa brawf cyfrif banc rydych chi ei hangen?.....	35
Am y Gronfa Sefydlogi.....	37
Faint o arian sydd yn y Gronfa Sefydlogi?.....	37
O le mae'r arian yma wedi dod?.....	38
Gwybodaeth a chefnogaeth.....	39
Sut rydw i'n gallu cael cefnogaeth pan rydw i'n cadw pellter cymdeithasol neu yn hunanynysu?.....	39
Ydw i'n gallu siarad â rhywun sydd yn gweithio i'r Cyngor Celfyddydau?.....	40
Cyllid Loteri arall.....	41
Mae gen i Grant Prosiect y Loteri Cenedlaethol. Ydw i'n gallu gwneud cais am yr arian yma hefyd?.....	41
Pryd bydd Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol yn dechrau eto?....	41
Newid y Gronfa Sefydlogi.....	42
Fyddwch chi'n gwneud unrhyw newidiadau i'r Gronfa Sefydlogi?.....	42

Y Gronfa Sefydlogi



Beth ydy'r gronfa a phwy sydd yn gallu ei chael?

Arian ydy'r **Gronfa Sefydlogi** y mae cyrff yng Nghymru yn gallu ei gael i'w cefnogi nhw drwy'r **Coronafeirws (COVID-19)**.

Mae'r arian ar gael i'w helpu nhw i ddal i fynd dros y misoedd nesaf.

Mae'n gallu cael ei ddefnyddio gan gyrff sydd yn aelodau o'n **Portffolio Celfyddydol Cymru** ni. A hefyd gan gyrff sydd ddim yn **aelodau**.

Ond fydd pob corff sydd yn rhan o'n **Portffolio Celfyddydol Cymru** ni ddim yn gallu gwneud cais. Darllenwch **dudalennau 8 a 9** am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda.

Am faint rydw i'n gallu gwneud cais?

Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyd at £35,000. Rhaid defnyddio'r arian yma o fewn 6 mis.

Os ydych chi mewn angen mawr ac os ydych chi'n aelod o **Bortffolio Celfyddydol Cymru** efallai y byddwch chi'n gallu gwneud cais am fwy na hyn. Ond rhaid i chi ofyn inni gyntaf er mwyn gallu gwneud cais am ragor o arian.



Pryd rydw i'n gallu gwneud cais?



Mae'r Gronfa Sefydlogi yn agor ar **Ddydd Mawrth 21 Ebrill 2020**.



Rhaid i chi anfon eich cais chi aton ni erbyn **5pm ar ddydd Gwener 8 Mai 2020**.

Pwy sydd yn gallu gwneud cais o'n Portffolio Celfyddydol Cymru ni

Pa gyrff o'n Portffolio Celfyddydol Cymru ni sydd yn gallu gwneud cais?

Os ydych chi'n aelod o'n **Portffolio Celfyddydol Cymru ni**, rydych chi'n gallu gwneud cais os:



- Rydych chi'n cael llai na 55% o'ch holl arian chi sydd yn dod i'ch corff chi gennym ni.



Gweithiwch allan y cyfartaledd os gwelwch yn dda dros y 3 blynedd diwethaf: 2016 - 2017, 2017 - 2018 and 2018 - 2019.

- Rydych chi'n gallu dangos inni eich bod chi wedi ceisio cael arian gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- Rydych chi'n gallu dangos eich bod chi'n defnyddio'r holl arian rydych chi'n gallu ei wneud i gefnogi eich hun ar yr amser yma.



Pa gyrff o'n Portffolio Celfyddydol Cymru ni sydd ddim yn gallu gwneud cais?



Dydyn ni ddim eisiau i chi wneud cais os:



- Rydych chi'n cael mwy na 55% o'r holl arian sydd yn dod i mewn i'ch corff chi gennym ni. Mae hyn ychydig dros hanner eich arian chi. Gweithiwch allan y cyfartaledd dros y 3 blynedd ariannol diwethaf os gwelwch yn dda: 2016 - 2017, 2017 - 2018 and 2018 - 2019.



- Mae gennych chi ddigon o arian i barhau i weithio am y 6 mis nesaf.
- Rydych chi'n rhan o gorff mwy, fel cyngor lleol, prifysgol neu'r BBC.



Os ydy'r rheolau yma yn meddwl nad ydych chi'n gallu gwneud cais am yr arian yma, ond eich bod chi'n meddwl y bydd rhaid i'ch corff chi gau os nad ydych chi'n ei gael, siaradwch â ni os gwelwch yn dda.

Pam nad ydy pob corff yn ein Portffolio Celfyddydol ni yn gallu gwneud cais?

Mae aelodau o **Bortffolio Celfyddydol Cymru** yn cael llawer o arian gennym ni.

Oherwydd coronafeirws dydyn ni ddim mor llym ynghylch sut mae'n rhaid iddyn nhw wario'r arian yma.

Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn golygu y byddan nhw'n gallu cadw i fynd heb gefnogaeth ychwanegol.

Mae'n fwy pwysig i gefnogi aelodau o **Bortffolio Celfyddydol Cymru** sydd ddim yn cael llawer o arian gennym ni.

Mae hyn oherwydd maen nhw'n debygol o fod wedi colli llawer o arian oherwdd coronafeirws, Er enghraifft, oherwydd dydyn nhw ddim yn gallu gwerthu tocynnau i sioeau nawr.



Pa gyrff eraill sydd yn gallu gwneud cais?

Pa gyrff sydd ddim yn aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru sydd yn gallu gwneud cais?

Os ydych chi'n gorff celfyddydol yng Nghymru rydych chi'n gallu gwneud cais. Ond mae angen inni wneud yn siŵr bod eich corff chi wedi cael ei sefydlu yn iawn.

Felly anfonwch gopi wedi ei lofnodi o'ch **dogfen lywodraethu** chi gyda'ch cais os gwelwch yn dda.

Os ydych chi wedi gwneud cais am arian o'r blaen, mae angen i chi anfon copi wedi ei lofnodi o'ch **dogfen lywodraethu** eto:

- Os ydy hi'n 2 flynedd ers i chi ei hanfon aton ni ddiwethaf
- Mae eich **dogfen lywodraethu** wedi newid ers i chi ei hanfon aton ni ddiwethaf.





Rhaid i'ch corff chi fod wedi ei leoli yng Nghymru ac yn 1 o'r mathau yma o gyrff:

- **Cwmni cyfyngedig gan Warant**
- Elusen cofrestredig (yn cynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
- **Corff Ymgorfforedig Elusennol (CIO)**
- **Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC).**



I wneud cais rhaid i'ch corff chi hefyd:

- Gwneud o leiaf hanner ei waith mewn math o gelfyddyd rydyn ni'n ei gefnogi. Er enghraifft, dawns, cerddoriaeth, theatr.
- Wedi gwneud gwaith yn y 3 blynedd diwethaf oedd wedi cael ei **ariannu yn gyhoeddus**. Mae hyn yn meddwl wedi cael ei dalu gydag arian gan y cyhoedd.
- Yn gwneud y rhan fwyaf o'i waith e yng Nghymru.
- Rhywun sydd o leiaf 18 oed yn rheoli'r corff.
- Cael cyfeiriad yng Nghymru. A chyfrif banc DU yn enw'r corff gyda o leiaf 2 berson wedi cael eu henwi fel llofnodwyr. Mae hyn yn meddwl bod o leiaf 2 berson wedi cytuno ag arian yn cael ei ddefnyddio o'r cyfrif.



Sut dylai gwahanol fathau o gyrff gael eu sefydlu?

Os ydy eich corff chi'n:

- **Cwmni cyfyngedig gan Warant**
- **Corff Ymgorfforedig Elusennol**
- **Cwmni Buddiannau Cymunedol**
- **Ymddiriedolaeth Elusennol**
- **Neu Gwmni Cyfyngedig gan Gyfranddaliadau**



Rhaid i chi gael **2 ymddiriedolwr** o leiaf. Dydyn nhw ddim i fod yn rhan o'r un teulu. A dydyn nhw ddim i fod i fyw yn yr un cyfeiriad.

Hefyd rhaid i'ch dogfennau llywodraethu chi:

- gael eu llofnodi gan o leiaf 2 ymddiriedolwr
- wedi'i gofrestru gyda **Thŷ'r Cwmniau** neu'r **Comisiwn Elusennau**
- dweud bod gennych chi gyfarfodydd Bwrdd Ymddiriedolwyr wedi eu trefnu drwy'r flwyddyn
- dweud faint o ymddiriedolwyr rydych chi eu hangen i allu gwneud penderfyniadau ar ran y corff. Mae hyn yn cael ei alw yn **gworwm**.



Cymdeithas Anghorfforedig

Os ydych chi'n **Gymdeithas Anghorfforedig** rhaid i chi gael yr holl bethau yma hefyd.



Ond does dim rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmniau na gyda'r Comisiwn Elusennau.

Gwneud cais

Ar gyfer beth mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio?

Rydych chi'n gallu defnyddio'r arian yma ar gyfer unrhyw beth sydd yn eich helpu chi i ddal i fynd yn ystod coronafeirws. Er enghraifft:



- Newid eich cynllun chi am sut rydych chi'n gweithio, sut rydych chi'n cael eich arian chi ac ar beth rydych chi'n gwario arian.
- Costau fel rhent a chostau staff.
- Arian ar gyfer offer fel bod staff yn gallu gweithio gartref.
- Taliadau mae angen i chi eu gwneud.



Cynllunio a gwneud gwaith yn y 6 mis nesaf, yn cynnwys:

- Cael prosiectau yn barod ar gyfer pan mae pethau yn dod yn ôl i normal.
- Prosiectau i'r cyhoedd allu eu mwynhau nawr, fel fideo a phethau dros y rhyngrwyd.



Ar beth dydych chi ddim yn gallu defnyddio'r arian?



Dydych chi ddim yn gallu defnyddio'r arian i:

- Greu gwaith newydd dydych chi ddim yn gallu ei ddangos i bobl nawr.
- Unrhyw waith rydych chi fel arfer yn cael arian ar ei gyfer e gan **Grantiau Prosiect Loteri Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau**.
- Unrhyw gostau neu golli arian oherwydd rhywbeth ar wahân i coronafeirws.
- Unrhyw ddyled arian roedd ganddoch chi cyn coronafeirws.



Diffiniadau – beth mae termau a geiriau yn ei feddwl

Dyma rai termau a geiriau pwysig rydyn ni yn eu defnyddio nhw a beth maen nhw'n feddwl.



Beth ydy Portffolio Celfyddydol Cymru?

Mae **Portffolio Celfyddydol Cymru** yn grŵp o 67 o gyrff yng Nghymru. Rydyn ni'n eu cefnogi nhw ac yn rhoi arian iddyn nhw bob blwyddyn i'w helpu nhw i redeg.

Beth mae gwaith wedi'i gyllido'n gyhoeddus yn ei feddwl?

Gwaith wedi'i gyllido'n gyhoeddus ydy unrhyw waith rydych chi wedi ei wneud sydd wedi cael ei dalu amdano fe gydag arian cyhoeddus.

Mae hyn yn gallu meddwl eich bod chi wedi cael arian grant i wneud y gwaith. Neu efallai eich bod chi wedi bod yn rhan o brosiect oedd wedi cael arian grant.

Mae'r math yma o arian grant yn dod o gyrff fel:

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cronfa Treftadaeth y Loteri Cenedlaethol
- Cronfa Cymuned y Loteri Cenedlaethol
- Awdurdodau Lleol
- Prifysgolion





Ar gyfer pa fath o gostau mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio?

Fe ddylech chi ddweud wrthyn ni am beth rydych chi angen yr arian ar yr amser yma. Rydyn ni'n gwybod bod hyn yn wahanol i gyrff gwahanol.

Ond mae'r mathau o gostau efallai rydych chi angen yr arian yma yn meddwl pethau fel:

- Rhent neu gostau adeilad arall
- Costau staff.
- Yswiriant, nwy, dŵr a thrydan.
- Costau staff yn gweithio gartref. A newid sut rydych chi'n gweithio dros y 6 mis nesaf i wneud yn siŵr eich bod chi'n aros yn agored.

Sut byddwn ni'n gwneud ein penderfyniad ni



Beth sydd fwyaf pwysig i'r Cyngor Celfyddydau?

Rydyn ni eisiau defnyddio'r arian yma i helpu 2 beth pwysig:

1. Cefnogi cyrff i ddal ati i wneud gwaith da, A gwneud yn siŵr bod nhw'n gallu dal i fynd ar ôl Coronafeirws.
2. Cael mwy o bobl o wahanol gefndiroedd, gwahanol leoedd a gwahanol alluoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau. Yn enwedig pobl sydd yn fyddar ac yn anabl. Rydyn ni eisiau i chi ddangos eich bod chi wedi meddwl am y pethau yma yn eich cais chi.



Oes yna rhywbeth arbennig rydyn ni eisiau ei gefnogi gyda'r arian yma?

Nac oes. Fe fyddwn ni'n meddwl am y pethau yma wrth wneud ein penderfyniad ni:



- Pa mor ddifrifol ydy eich problemau arian. Mae angen i chi ddweud wrthyn ni am hyn yn eich cais chi.
- Pa mor bwysig ydy eich gwaith chi. Mae hyn yn gallu bod oherwydd ei fod e'n gelf mawr. Neu mae'n cefnogi pobl i fod yn greadigol.



- Pa mor dda mae eich gwaith chi yn ein helpu ni i ateb ein prif nodau ni.
- Sut mae eich gwaith chi o fudd i eraill, nawr ac yn y dyfodol.
- Pa mor dda ydy eich cynlluniau chi ar gyfer rheoli a gwneud y gwaith neu'r prosiect. Mae hyn yn meddwl eich cynlluniau chi ar gyfer sut byddwch chi'n rheoli yr arian.



- Pa gyrff eraill rydyn ni yn eu cefnogi nhw. Lle maen nhw a pha fath o waith maen nhw'n ei wneud. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n cefnogi gwaith ar draws Cymru. Ym mhob gwahanol ffurfiau o gelfyddyd.





Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n cefnogi pob gwahanol fathau o gyrff. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cynrychioli pawb yng Nghymru.

Rydyn ni eisiau cael ceisiadau gan bobl sydd yn **Ddu, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig**. A phobl sydd yn fyddar neu yn anabl.

Fe fyddwn ni'n meddwl am yr holl geisiadau rydyn ni wedi eu cael. Fe fyddwn ni'n ceisio gwneud yn siŵr ein bod ni wedi cefnogi pob gwahanol fathau o gelfyddyd. A chyrrff mewn gwahanol leoedd yng Nghymru.



Ar gyfer pa fath o gostau mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio?

Nac oes. Fe fyddwn ni'n meddwl am yr holl gyrff. Fe fyddwn ni'n gwneud ein penderfyniad ni'n dibynnu ar faint ydy anghenion cyrrff. A pha mor gryf ydy eu cais nhw.

Darllenwch **dudalennau 19-21** os gwelwch yn dda am ragor o wybodaeth am sut rydyn ni'n gwneud penderfyniad.

Ydw i'n gallu gwneud cais nawr am waith fydd yn digwydd y flwyddyn nesaf?



Er enghraifft am waith rydyn ni eisiau mynd ar daith? Neu daith rydyn ni wedi ei archebu ar gyfer nes ymlaen y flwyddyn yma?

Nac ydych. Darllenwch **dudalen 15** os gwelwch yn dda am ragor o wybodaeth ar beth rydych chi'n gallu gwario'r arian yma.



Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar gefnogi cyrff sydd angen help nawr i fynd drwy coronafeirws.

Dydyn ni ddim yn gallu cefnogi unrhyw waith ar gyfer cynulleidfaoedd byw. Os nad ydy hyn yn digwydd dros y rhyngwyd.

Dydy'r arian yma ddim yn gallu cefnogi gwaith rydych chi eisiau ei wneud yn y dyfodol.

Faint o gyrff fydd yn cael arian o'r Gronfa Sefydlogi?



Dydyn ni ddim yn gwybod. Rydyn ni eisiau cefnogi cymaint o geisiadau da â phosibl. Ond dydyn ni ddim yn gwybod faint o bobl fydd yn gwneud cais.

Ydych chi'n mynd i brintio enwau'r bobl sydd yn cael arian?



Ydyn. Rhaid inni brintio enwau a rhywfaint o wybodaeth am y bobl sydd wedi cael arian.

Arian

Os ydw i'n gallu cael arian ar gyfer fy mhrosiect, fydda i'n fwy tebygol o gael arian o'r Gronfa Sefydlogi?



Na fyddwch. Fe ddylech chi wneud cais am yr arian yma dim ond os nad ydych chi'n gallu cael arian i dalu am eich gwaith chi yn unrhyw le arall.

Rydych chi'n gallu gofyn am faint o arian rydych chi ei angen, hyd at £35,000. Ond does ganddon ni ddim digon o arian i bawb.



Ac rydyn ni eisiau cefnogi cymaint o gyrff â phosibl. Fe fydd pobl sydd yn gwneud cais am symiau is o arian yn ddewisiadau da inni.

Sut bydd cael arian o'r Gronfa Sefydlogi yn gwneud gwahaniaeth i unrhyw gefnogaeth arall rydw i'n ei gael?



Dydyn ni ddim yn gwybod. Dydyn ni ddim yn gallu rhoi cyngor i chi am hyn.

Cofiwch fod yr arian yma yn gallu gwneud gwahaniaeth i'r dreth rydych chi'n ei thalu. Fe ddylech chi gysylltu â Refeniw a Thollau EM am gyngor:

Gwefan: www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs

Ffôn: 0800 024 1222

Pa brawf rydych chi ei hangen i ddangos ein bod ni wedi colli arian?



Dim ond dweud wrthyn ni am unrhyw arian rydych chi wedi ei golli oherwydd cornafeirws. Efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi am brawf yn nes ymlaen. Cadwch gofnod, er enghraifft e-bost a chontractau.



Ydw i angen cyllid cyfatebol?

Nac ydych.



Oes angen imi roi cynllun i chi am sut rydw i'n mynd i wario'r arian?

Oes. Mae hyn yn rhan o'r cais. Mae'n ffurflen fer. Fe fyddwn ni'n gofyn i chi pa arian fydd yn dod i mewn ac yn mynd allan dros y 6 mis nesaf. Darllenwch y cwestiwn nesaf os gwelwch yn dda am ragor o wybodaeth.

Sut rydw i'n llenwi'r ffurflen sydd yn dweud sut bydd yr arian yn cael ei wario?



Fel rhan o'r cais fe fydd angen i chi lenwi ffurflen yn dweud wrthyn ni am eich cynllun chi am sut rydych chi'n mynd i wario'r arian. Enw hwn ydy **templed cyllideb**.

Os ydych chi'n gwneud cais am arian ar gyfer **prosiect** rhaid i chi roi **cyllideb prosiect** gyda'ch cais chi.

Rhaid i chi ddefnyddio'r **templed cyllideb** sydd yn y cais.

Dydych chi ddim yn gallu newid hyn ar ôl i chi anfon eich cais aton ni. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r holl gostau i lawr.

Dyma'r tudalennau sydd yn rhaid i chi eu llenwi:

- **Crynodeb** – rhowch enw eich corff chi ac enw'r prosiect. Fe fydd y ffurflen yn gweithio allan y costau wrth i chi roi'r wybodaeth.



- **Gwariant** – dyma lle rydych chi'n dweud pa gostau mae'n rhaid i chi eu talu i wneud y prosiect.
- **Incwm** – dweud wrthyn ni pa arian fyddwch chi'n ei gael oherwydd eich prosiect chi.
- **Costau mynediad** – costau sydd gennych chi neu rywun sydd yn gweithio ar y prosiect oherwydd anghenion ychwanegol.

Sut dylwn i lenwi'r adran gwariant o'r templed cyllideb?

Fe ddylech chi lenwi'r rhan yma gyda chymaint o wybodaeth â phosibl.



Dangoswch inni sut rydych chi wedi gweithio popeth allan os gwelwch yn dda. Fe ddylech chi roi cymaint o fanylion ag y gallwch chi am beth fydd y costau.

Dim ond costau sydd yn deg ac yn rhesymol am y gwaith rydych chi'n ei wneud y dylech chi eu rhoi.

Beth am TAW?

Os ydych chi wedi cofrestru i hawlio TAW yn ôl o'r Llywodraeth, yna dydych chi ddim i fod i roi TAW yn eich costau chi.



Os dydych chi ddim yn gallu hawlio TAW yn ôl ar rywbeth, mae angen i chi ysgrifennu am hyn ar wahân.

Os dydych chi ddim wedi cofrestru i hawlio TAW yn ôl, mae angen i chi roi TAW yn eich holl gostau chi.

Sut dylwn i lenwi'r adran incwm?

Mae'r rhan yma am yr holl arian sydd yn dod i mewn i'ch corff chi.



Dangoswch inni os gwelwch yn dda sut rydych chi wedi gweithio popeth allan.



Mae 5 rhan yn yr adran incwm:

1. Cais grant i Gyngor Celfyddydau Cymru

Ysgrifennwch faint o arian rydych chi'n gofyn amdano fe gennym ni.



2. Eich arian chi.

Dywedwch wrthyn ni os gwelwch yn dda faint o'ch arian eich hun byddwch chi'n ei wario ar y prosiect.

3. Incwm wedi'i ennill.

Dywedwch wrthyn ni am yr arian byddwch chi'n ei wneud o'ch prosiect chi.



4. Arian arall.

Os oes gennych chi arian arall ar gyfer y prosiect yma, mae hyn yn dangos inni fod ganddo fe lawer o gefnogaeth. Dywedwch wrthyn ni os gwelwch yn dda faint o arian rydych chi'n gobeithio ei gael o leoedd eraill.



5. Cefnogaeth mewn modd.

Mae hyn yn gallu bod yn bethau fel yr amser mae eich gwirfoddolwyr chi yn ei roi. A benthg offer gan eraill. Dydy hyn ddim yn gallu cynnwys eich amser a'ch offer chi. Neu bethau fel disgownt.


Sut rydw i'n llenwi'r adran crynodeb?

Fe fydd y dudalen yma yn gweithio allan yr holl arian fyddwch chi'n ei wario. A'r holl arian fyddwch chi'n ei gael i mewn.

Fe ddylai hyn fod yn £0. Felly mewn geiriau eraill, fe ddylech chi wario'r holl arian rydych chi'n ei gael.

Fe fydd yn dangos inni faint o arian rydych chi'n gofyn amdano gennym ni. Rhaid i hyn fod o fewn ein rheolau ni.

Os oes gennych gostau oherwydd anghenion ychwanegol fe fydd hyn hefyd yn cael ei ddangos. Fe ddylech chi ychwanegu'r costau yma at yr holl arian rydych chi'n gofyn amdano fe. Fe ddylech chi ysgrifennu hyn o dan y **Swm y gwneir cais amdano**.



Ydy'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu dyled sydd gennym ni ers amser hir?

Nac ydy. Mae'r arian yma ar gyfer eich helpu chi i ddod drwy coronafeirws yn unig.






Mae gen i anghenion ychwanegol, ydw i'n gallu cael help gyda'r cais?

Ydych. Cysylltwch â'n tîm grantiau a gwybodaeth yn grantiau@celf.cymru.

Ydy'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu costau mynediad?

Ydy. Rydyn ni'n gallu eich helpu chi i dalu am bethau rydych chi neu unrhyw un sydd yn rhan o'r gwaith eu hangen oherwydd anabledd. Neu anghenion ychwanegol.



Mae hyn yn gallu bod am bethau fel offer arbennig, gweithwyr cefnogi neu dalu am ddehonglydd.

Rhowch fanylion am y costau yma yn eich cyllideb chi os gwelwch yn dda. Er enghraifft: Gweithiwr cefnogi £80 y dydd am 10 diwrnod.

Mae'r arian yma ar wahân i'r arian rydych chi'n gwneud cais amdano fe i wneud y gwaith.

Beth ydy costau mynediad?



Costau mynediad ydy pethau fel:

- Cefnogaeth gofal personol yn y cartref.
- Help gyda thrafnidiaeth.
- **Eiriolydd** – person sydd yn gallu siarad ar eich rhan chi a'ch helpu chi i gael dweud eich dweud.
- Cefnogaeth cyfathrebu fel dehonglydd Iaith Arwyddion Prydeinig, meddalwedd arbennig i'ch cyfrifiadur chi neu wybodaeth hawdd ei ddeall.




Pa brawf cyfrif banc rydych chi ei hangen?

Rhaid i chi roi prawf inni sydd yn dangos:

- bod y cyfrif yn eich enw chi
- rhif a chod didoli'r cyfrif
- bod cyfeiriad ar eich cyfrif banc chi yng Nghymru.

Mae angen i'r prawf fod yn:

- llai na 2 flynedd oed
- rhywbeth swyddogol gan y banc. Er enghraifft llun o'ch cerdyn banc chi sydd yn dangos enw, rhif a chod didoli'r cyfrif. Neu lythyr neu e-bost gan eich banc chi.





Efallai bydd angen i chi roi ychydig o ddogfennau gwahanol inni fel prawf.

Os ydyn ni'n penderfynu rhoi arian i chi fe fyddwn ni'n gofyn i chi am ragor o wybodaeth am eich cyfrif chi.



Dydyn ni ddim yn gallu rhoi unrhyw arian i chi tan ein bod ni wedi edrych ar yr wybodaeth yma.



Dydyn ni ddim yn gallu talu arian i mewn i:

- Cyfrif cymdeithas adeiladu gyda dim ond paslyfr.
- Cyfrif ar y cyd.

Am y Gronfa Sefydlogi

Faint o arian sydd yn y Gronfa Sefydlogi?



Rydyn ni'n anelu at wario tua **£5½ miliwn** ar y **Gronfa Sefydlogi** i gyrff.

Dydyn ni ddim wedi penderfynu faint o'r arian yma fyddwn ni'n ei roi i aelodau o **Bortffolio Celfyddydol Cymru**. A faint fyddwn ni'n ei roi i gyrff sydd ddim yn aelodau o **Bortffolio Celfyddydol Cymru** eto.

Fe fyddwn ni'n gweld faint o geisiadau rydyn ni'n gael a cheisio ateb anghenion cyrff mor dda ag rydyn ni'n gallu.

O le mae'r arian yma wedi dod?



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydyn ni'n defnyddio rhywfaint o'r arian rydyn ni wedi ei gael gan y llywodraeth ar gyfer ein gwaith ni.

Ac mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhywfaint o arian ychwanegol inni.

Fe fyddwn ni'n stopio ein **rhaglenni Loteri cais agored-i-bawb** ni am 6 mis.

Fe fyddwn ni'n defnyddio'r arian o hwn ar gyfer ein **Cronfa Gwytnwch** ni yn lle hynny.

Fe fyddwn ni'n edrych ar y cynllun yma eto yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Fe fyddwn ni'n dweud wrthy ch chi pryd mae'r **rhaglenni Loteri cais agored-i-bawb** yn dechrau eto.



Gwybodaeth a chefnogaeth

Sut rydw i'n gallu cael cefnogaeth pan rydw i'n cadw pellter cymdeithasol neu yn hunanynysu?

Oherwydd rheolau Llywodraeth Cymru dydyn ni ddim yn gallu rhoi cefnogaeth wyneb yn wyneb i chi.

Fe fyddwn ni'n cefnogi gweithwyr gofal ac aelodau teulu drwy'r **Gronfa Cefnogaeth Mynediad**.

Y peth gorau i'w wneud ydy cysylltu â ni yn: grantiau@celf.cymru.



Ydw i'n gallu siarad â rhywun sydd yn gweithio i'r Cyngor Celfyddydau?



Oherwydd Coronafeirws, mae ein staff ni yn gweithio o gartref.

Mae hyn yn gallu bod yn anodd ac mae llawer o'n staff ni'n ceisio gweithio ac edrych ar ôl eu teuluoedd nhw.



Felly dydyn ni ddim yn gallu rhoi cyngor 1-i-1 i chi.

Rydyn ni wedi gwneud pethau mor hawdd â phosibl i wneud cais. Os oes gennych chi anghenion ychwanegol ac os ydych chi angen cefnogaeth rydych chi'n gallu cysylltu â ni yn grantiau@celf.cymru.



Cyllid Loteri arall

Mae gen i Grant Prosiect y Loteri Cenedlaethol. Ydw i'n gallu gwneud cais am yr arian yma hefyd?



Fe ddylen ni fod wedi cysylltu â chi erbyn hyn am beth i'w wneud nesaf.

Os ydych chi'n cael arian gennym ni yn barod, fe ddylech chi siarad â ni am sut i ddefnyddio'r arian yma i'ch helpu chi drwy coronafeirws.

Pryd bydd Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol yn dechrau eto?

Medi

2020

Dydyn ni ddim yn gwybod eto. Mae'n debyg y bydd ein **rhaglenni cais agored-i-bawb** ni ar gau tan o gwmpas **Medi 2020**.

Rydyn ni'n gwybod bod **Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol** yn rhan bwysig o gynllunio i artistiaid a chyirff.

Fe fyddwn ni'n gwneud ein gorau i ddechrau **Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol** mor fuan â phosibl.

Newid y Gronfa Sefydlogi

Fyddwch chi'n gwneud unrhyw newidiadau i'r Gronfa Sefydlogi?



Rydyn ni wedi creu'r **Gronfa Sefydlogi** yn gyflym iawn. Oherwydd hynny fe fyddwn ni'n edrych i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud y peth gorau.

Os oes angen inni wneud unrhyw newidiadau fe fyddwn ni'n dweud wrthy ch chi mor fuan ag rydyn ni'n gallu.